OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 362 (Cy.48)

OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Gorchymyn Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 (Darpariaethau Trosiannol a Diwygiadau Canlyniadol) 2006

Wedi'u gwneud - -	*14 Chwefror 2006*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 43(1) a (2) a 44(1) o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005(**1**) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 (Darpariaethau Trosiannol a Diwygiadau Canlyniadol) 2006 a bydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2006.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "aelod cyfetholedig" ("*co-opted member*"), mewn perthynas ag awdurdod perthnasol, yw person nad yw'n aelod o'r awdurdod ond sy'n—

(a) aelod o unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor o'r awdurdod, neu

(b) aelod o unrhyw gydbwyllgor neu gyd is-bwyllgor o'r awdurdod ar y cydbwyllgor neu ar y cyd is-bwyllgor hwnnw,

ac sy'n gymwys i bleidleisio ar unrhyw fater sydd i'w benderfynu mewn unrhyw gyfarfod o'r pwyllgor neu is-bwyllgor hwnnw;

ystyr "awdurdod perthnasol" ("*relevant authority*") yw cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol, awdurdod Parc Cenedlaethol a sefydlwyd o dan adran 63 o Ddeddf Amgylchedd 1995(**2**) neu

(**1**) 2005 p. 10.
(**2**) 1995 p. 25.

awdurdod tân ac achub a gyfansoddwyd gan gynllun o dan adran 2 o Ddeddf Tân ac Achub 2004(**3**) neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo; ac

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005.

Diddymu a diwygio is-ddeddfwriaeth

2. Mae'r is-ddeddfwriaeth y cyfeirir ati yn Atodlen 1 yn cael ei dirymu.

3. Mae Atodlen 2 yn cynnwys diwygiadau i is-ddeddfwriaeth.

Darpariaethau trosiannol

4.—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys os—

(a) oes honiad wedi cael ei wneud i Gomisiynydd Lleol yng Nghymru o dan adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000(**4**) cyn y dyddiad y daw adran 38 o'r Ddeddf i rym, a

(b) nad yw'r honiad wedi cael ei benderfynu gan y Comisiynydd hwnnw cyn y dyddiad hwnnw.

(2) Ar y dyddiad y daw adran 38 o'r Ddeddf i rym ac ar ôl hynny, mae Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a rheoliadau a gorchmynion a wnaed oddi tani yn parhau i fod yn gymwys at ddibenion yr honiad er gwaethaf darpariaethau'r Ddeddf neu'r Gorchymyn hwn.

(3) Mae paragraff (4) yn gymwys os—

(a) gallesid (heblaw am ddarpariaethau'r Ddeddf) bod wedi gwneud honiad i Gomisiynydd Lleol yng Nghymru, a

(b) yw'r honiad yn honiad bod aelod neu aelod cyfetholedig (neu gyn aelod neu gyn aelod cyfetholedig) o awdurdod perthnasol yng Nghymru wedi methu neu y gall fod wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod cyn y dyddiad y daw adran 38 o'r Ddeddf i rym.

(4) Ar y dyddiad y daw adran 38 o'r Ddeddf i rym ac ar ôl hynny, mae Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**5**) a rheoliadau a gorchmynion a wnaed oddi tani yn parhau i fod yn gymwys at ddibenion galluogi i'r honiad gael ei wneud, ac at ddibenion yr honiad os y'i gwneir, er gwaethaf darpariaethau'r Ddeddf neu'r Gorchymyn hwn.

(5) Pan fo paragraffau (2) a (4) yn gymwys, mae Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a rheoliadau a gorchmynion a wnaed oddi tani yn effeithiol fel pe bai cyfeiriadau at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi eu rhoi yn lle cyfeiriadau at y Comisiynydd Lleol yng Nghymru.

(**3**) 2004 p.21.
(**4**) 2000 p. 22.
(**5**) 2000 p.22.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**6**).

John Marek

14 Chwefror 2006 — Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**6**) 1998 p.38.